



Medi 16eg, 2018



Mae oedfa'r bore 'ma wedi ei chynllunio gan Gwerfyl a Tomos Morse a Lowri a Dafydd Roberts. Rhiannon Humphreys sy'n cyfeilio. Diolch iddyn nhw i gyd.

Y Suliau Nesaf

Medi 23ain - Y Parchg. Gethin Rhys,
gyda Lowri Roberts a Rhiannon

Medi 30 - Geraint a Caroline Rees
gydag Eleri Huws yn cyfeilio

**Hydref 7ed - Cwrdd Pentref dan
arweiniad Pentyrch**

Hydref 14eg Y Parchg Aled Edwards
gyda Wyn Jones

Hydref 21ain - Sul y Cynhaeaf gyda'r
Ysgol Sul

Hydref 28ain - Gethin Rhys gyda
Helen Prosser

Merched y Tabernacl

Medi 20fed

Cwrdd yn Neuadd Llanelai /Lanelay Hall am
2.15 ar gyfer y te pnawn.

Tachwedd 9fed

Mae'r bws i Lamed yn llawn!

CASGLIAD CYMORTH CRISTNOGOL 2018

Cyrhaeddodd gasgliad yr ardal £3,350
eleni, yn cynnwys £1,700 gan gasglwyr y
capel yn Efail Isaf. Diolch yn fawr i bawb
am eu help.

Rhybudd Perygl

Nid yw'r fynwent yn gwbl ddiogel ac yn
arbennig felly i blant chwarae ynddi. Felly
apeliwn ar rieni, athrawon yr Ysgol Sul ac
eraill i wneud yn siŵr bod y plant yn eu
gofal yn cadw draw o'r fynwent rhag iddynt
gael niwed.

Mae gwybodaeth reolaidd am y capel ar
ein tudalen Facebook a
www.tabernacl.org

Dymunwn yn dda i Linda Ladd o Radur sydd
wedi bod yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn
ddiweddar.

Pob dymuniad da i Carys ac Elwyn Davies
am orffwys da wedi priodas Ffion eu
merch a Carl Riley. Llongyfarchiadau
gwresog i'r pâr ifanc!

Te a Choffi

Bydd paned wedi oedfa'r bore heddiw, ac yn
ystod yr oedfa fe ddaw taflen o amgylch i chi
allu torri'ch henw arni i fod ar y rota i
baratoi'r te a coffi dros y misoedd nesaf.

Diolch.

Trip Ysgol Sul

Medi 22ain, 2018



Oedolion: £19

Plant 2-14: £15

Plant o dan 2 oed: Sŵ am ddim ond codir

£7.00 am sedd ar y bws.

**Arian erbyn Medi'r 9fed i
Catrin Rees neu Lowri Roberts.**

CYFAMOD EGLWYSIG Y TABERNACL:

'Rydym yn gymuned o bobl sydd wedi
ymrwymo yn wirfoddol i geisio tyfu gyda'n
gilydd mewn dealltwriaeth a gallu i ymarfer
dysgeidiaeth ac ysbyrd yr lesu

CYNGERDD MADAGASCAR

Nos Sadwrn 22 Medi am 7.30 cynhelir Cyngerdd Daucanmlwyddiant Cymru-Madagascar yng Ngholeg Cerdd a Drama Cymru, Caerdydd. Pumawd Justin Vali ynghyd ag Ensemble Nidum, sef casgliad o gerddorion ifanc Cymreig sy'n aelodau o rai o brif gerddorfeydd Prydain fydd yr artistiaid. Bydd crefftau o Fadagascar ar werth a ffilm hanner awr am y cenhadon cyntaf yn cael ei dangos yn y cyntedd o flaen y cyngerdd a hefyd yn ystod yr egwyl. Pris y tocynnau, y gellir eu harchebu ymlaen llaw o'r coleg (02920 3913910), yw £17.50 (Consesiynau £15). Bydd mynediad am ddim i blant dan 12 oed.

Heddwch yn y Ddinas

Yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mae Caerdydd eleni fe lansiwyd llawlyfr dwyieithog *Heddwch yn y Ddinas*, wedi ei ysgrifennu gan Jon Gower a'i gyhoeddi ar y cyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a Chymdeithas y Cymod. Mae'r llyfryn deniadol hwn yn tywys y darlennydd o amgylch lleoliadau yn ardal Caerdydd sy'n ymwneud â heddwch a heddychiaeth. Pris y gyfrol yw £5. Os nad ydych eisoes wedi ei brynu yna mae modd archebu copi trwy roi eich henw i Rowland Wynne naill ai ar ddiwedd yr oedfa heddiw neu mewn neges e-bost (marian.rowland@btinternet.com).

Digwyddiadau Heddwch Caerdydd
Cynhadledd Heddwch
21-22 Medi
Y Deml Heddwch, Parc Cathays

Cyngerdd Heddwch
gyda Côrddydd a Chôr Heol y March
7.30 Medi 21
Tabernacl yr Ais

Gym Gym Llantrisant
Nos Wener, 21 Medi am 7.00.0'r gloch
'Olew yn y Gwaed' – Edwin Evans
Yn Y Ganolfan Tabernacl, Efail Isaf

APÊL MADAGASCAR 2018

Mae apêl Undeb yr Annibynwyr Cymraeg eleni'n anelu at godi £200,000 i helpu Madagascar, un o wledydd tlotaf y byd. Bydd yr arian yn cefnogi prosiectau i ddarparu lloches i ferched bregus, meddygfa a deintyddfa i bobl anghenus, cartref i blant amddifad, a chynllun i hyfforddi gweinidogion i ddysgu'r bobl sut i dyfu mwy o gnydau er mwyn lliniaru problemau diffyg maeth.

Daw'r apêl i ben ym mis Mehefin 2019, a'n gobaith ni fel capel yw casglu £30 gan bob aelod dros y flwyddyn. Erbyn diwedd mis Medi bydd amlenni pwrpasol ar gael i bob aelod gyfrannu yn ôl eu dymuniad, a chyflenwad i gyfeillion yn ein plith sy'n awyddus i gefnogi. Mae croeso mawr i unrhyw un drefnu achlysur fel bore coffi hefyd, i chwyddo'r coffrau.

Byddai'n braf anelu at godi dros £5,000 fel coron deilwng ar ymdrechion gloyw Merched y Tab i groesawu'r bobl o Fadagascar fu yma yn ystod dathliadau'r daucanmlwyddiant ym mis Mehefin.

CYLCH CADWGAN

Nos Wener 5 Hydref 2018 am 8.00pm
EMYR DAVIES

yn siarad ar y testun:
'Trosi Cerddoriaeth Gorawl'
yn Y Ganolfan, Tabernacl, Efail Isaf
Cydnabyddir cefnogaeth Llenyddiaeth Cymru

